**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB)** |
| **PWNC:** | **CYDBWYLLGOR CRAFFU (MONITRO'R GYLLIDEB) - DYDD LLUN, 7 MAWRTH 2022 DYDD LLUN, 7 MAWRTH 2022** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: S. HEALY (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: M. Cook (Is-gadeirydd)
D. Bevan
G. A. Davies
G. L. Davies
P. Edwards
K. Hayden
J. Hill
J. Holt
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
G. Paulsen
K. Rowson
T. Smith
B. Summers
S. Thomas
B. Willis
L. Winnett

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Day, M. Cross, H. Trollope, L. Elias a Mr. T. Baxter (Aelod Cyfetholedig). | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Datganodd y Cynghorydd B. Summers fuddiant yn Silent Valey Waste Services Cyf lle cyfeirir ato ar yr agenda. | |
| **No. 4** | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **DALEN WEITHREDU – 22 TACHWEDD 2021**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **CYD-BWYLLGOR CRAFFU (MONITRO CYLLIDEB)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2022.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 7** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - 2021/2022, RHAGOLWG ALL-DRO HYD 31 MAWRTH 2022 (FEL AR 31 RHAGFYR 2021).**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi'r rhagolwg o'r sefyllfa alldro ariannol ar draws pob portffolio ar gyfer | |

| | | |
|---|---|---|
| | blwyddyn ariannol 2021/2022 (rhagolwg 31 Rhagfyr 2022); y rhagolwg o'r sefyllfa ariannol hyd ddiwedd mis Mawrth 2022 ar draws pob portffolio, a'r rhagolwg o'r all-dro ar gyfer ffioedd a thaliadau.<br><br>Yr all-dro cyffredinol a ragwelwyd fel ym mis Rhagfyr 2021 oedd amrywiad ffafriol o £4.65m, ar ôl gweithredu Cyllid Caledi Llywodraeth Cymru. Bu cynnydd o £1.835m yn yr amrywiad ffafriol ers sefyllfa rhagolwg Medi 2021 (£2.814m).<br><br>Mae'r rhagolwg yn cynnwys cyllid gwirioneddol ac amcangyfrif o'r Gronfa Caledi ar gyfer mis Ebrill i fis Rhagfyr 2021 o £5.036m. Cadarnhaodd y Swyddog y cafodd yr hawliadau eu cyflwyno, yn unol gyda set o faterion egwyddor gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer colli incwm Chwarteri 1 i 3 a chafodd £130,000 ei gynnwys yn y rhagolwg ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Cadarnhawyd y byddai Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru yn parhau i fis Mawrth 2022.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n nodi'r deilliannau ariannol yn yr adroddiad (Opsiwn 1). | |
| **No. 8** | **<u>MONITRO'R GYLLIDEB CYFALAF, RHAGOLWG AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021/2022 (FEL AR 31 RHAGFYR 2021)</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf gwirioneddol a rhagolwg pob portffolio o gymharu â chymeradwyaethau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022, fel ar 31 Rhagfyr 2021; y rhagolwg o'r sefyllfa ariannol hyd 31 Mawrth 2022 ar draws pob portffolio, a manylion amrywiadau anffafriol/ffafriol sylweddol.<br><br>Roedd y sefyllfa ariannol gyffredinol fel y'i rhagwelwyd ar 31 Rhagfyr 2021 yn dangos amrywiad anffafriol o £227,852 o gymharu â chyfanswm cyllideb gyfalaf yn y flwyddyn o £20.1m. Dynododd yr adroddiad orwariant sylweddol ar y prosiectau dilynol:<br><br>**Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi - £42,752**<br>Mae'r gorwariant yn ymwneud â chynnydd mewn costau oherwydd pandemig Covid-19 a pharatoi'r safle ar gyfer y dyfodol. Mae | |

trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda WRAP Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch cyllido'r gwariant ychwanegol.

**Parc Busnes Rhodfa Calch – £185,096**
Mae'r cyfrif terfynol diweddaraf a ragwelir yn sôn am golled a hawliad treuliau ar gyfer eitemau yng nghyswllt problemau nas rhagwelwyd a achoswyd gan bandemig Covid-19 o £185,096, gostyngiad o £49,614 o gymharu â rhagolwg Chwarter 2 o £234,710. Roedd swyddogion yn trafod gyda Llywodraeth Cymru a swyddogion prosiect WEFO i geisio cyllid ychwanegol i liniaru'r gorwariant.

Cadarnhaodd y Swyddog fod trafodaethau gyda chyrff cyllido yn gadarnhaol ar hyn o bryd felly ni chynigir ar y cam hwn fod cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn yn dod o'r gronfa cyfalaf wrth gefn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog fod y ffigurau a roddwyd ar gyfer yr adeiladau presennol ar Barc Busnes Rhodfa Calch.

Wedyn cyfeiriodd yr Aelod at y cais cynllunio ar gyfer cyflenwi 10 uned i dde'r safle a holodd am gyllid ar gyfer y datblygiad.

Cadarnhaodd y Swyddog y rhoddwyd cymeradwyaeth cynllunio yr wythnos ddiwethaf, fodd bynnag nid yw'r Cyngor yn ymwneud â chyflenwi'r prosiect. Caiff y prosiect ei gyllido gan yr ymgeisydd gyda chyllid rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd Aelod arall y deallai fod Cymoedd Technoleg wedi tynnu allan o'r prosiect.

Mewn ymateb esboniodd y Swyddog fod Cymoedd Technoleg yn darparu cyllid ar gyfer unedau dechrau busnes, fodd bynnag mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno cais newydd gyda newid i'r unedau a ddarperir yn y safle. O ran cyllid Cymoedd Technoleg, disgwylir cael gwybod beth yw lefel y cyllid Llywodraeth Cymru i Cymoedd Technoleg ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y bydd cyllid yn anodd y flwyddyn nesaf. Dywedodd y Swyddog bod cyllid ar gael ar gyfer datblygiadau, a'i bod yn debygol y byddai'r ymgeisydd yn dechrau ar drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd Aelod am gostau'r arolwg a gynhaliwyd ar y Ganolfan Ddinesig a dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai'n adrodd

| | | |
|---|---|---|
| | yn ôl ar y mater hwn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at y trafodaethau ar y datblygiad newydd arfaethedig yn Rhodfa Calch a mynegodd bryder y gallai'r golled bosibl ar gyllid Cymoedd Technoleg effeithio ar brosiectau eraill. Dywedodd fod yr Aelod Gweithrediaeth a hefyd Gyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau cymunedol ill dau yn aelodau o Fwrdd Cymoedd Technoleg a dywedodd y Cadeirydd y byddai'n trafod y mater gyda'r Aelod Gweithrediaeth.<br><br>Cyfeiriodd Aelod wedyn at y Gronfa Rhyddhau Tir – Baddonau Pen y Pwll a mynegodd bryder am ymateb yr Aelod Gweithrediaeth i ohebiaeth ar y mater a dywedodd nad oedd Swyddogion yn dal heb roi ymateb i'w gwestiynau am y cyllid. Wedyn gofynnodd pa amodau oedd ar y cyllid o £224,878k ac os oes unrhyw gyfraniad gan Flaenau Gwent.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Pennaeth Adfywio y byddai'n adrodd yn ôl ar delerau ac amodau'r cyllid.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn:<br><br>• Parhau i gefnogi gweithdrefnau rheoli ariannol priodol a gytunwyd gan y Cyngor; a<br>• Nodi'r gweithdrefnau rheoli a monitro cyllideb sydd ar waith o fewn y Tîm Cyfalaf, i ddiogelu cyllid yr Awdurdod (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **<u>DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL AC WEDI'U CLUSTNODI 2021/2022</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi rhagolwg sefyllfa cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2021/2022 fel yn Chwarter 3 (31 Rhagfyr 2021). Mae Adran 6 yr adroddiad yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r rhagolwg sefyllfa ariannol yng nghyswllt y balasau yn gyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi ru clustnodi ar 31 Mawrth 2022.<br><br>Mae balans agoriadol y gronfeydd wrth gefn gyffredinol o £7.553m yn 5.72% o wariant refeniw net, oedd yn uwch na lefel targed 4% o £5.284m. Mae Tabl 1 yn Adran 6.1.3 yn dangos y sefyllfa rhagolwg ar gyfer y gronfa gadw cyffredinol ar ddiwedd blwyddyn | |

| | | |
|---|---|---|
| | 2021/2022 i fod yn gynnydd o £4.849m i £12.402m. Mae'r balans hwn yn 9.39% o wariant refeniw net, £7.118m uwchben y lefel targed o 4% o £5.284m yn dangos cynnydd pellach tuag at gryfhau cydnerthedd ariannol y Cyngor a rhoi clustog i ddelio gyda problemau annisgwyl yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau yn:<br><br>• Ystyried yr effaith y byddai amrywiad ffafriol o £4.649m ar gyfer 2021/2022 ar y cyfraniad yn y gyllideb i'r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn;<br>• Nodi'r cynnydd a ragwelir yn y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn yn 2021/2022 i £12.402m, sef 9.39% o wariant refeniw net, yn uwch na'r lefel targed o 4%;<br>• Ystyried yr angen am reolaeth ariannol darbodus parhaus i gefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a chydnerthedd ariannol y Cyngor; a<br>• Pharhau i herio gorwariant cyllideb a gweithredu Cynlluniau Gweithredu gwasanaeth priodol, lle mae angen.<br><br>Mae'n hanfodol bod cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn cael eu cynnal ar lefel digonol i'r Cyngor fedru ateb ymrwymiadau'r dyfodol sy'n deillio o risgiau na wnaed darpariaeth benodol ar eu cyfer. | |
| **No. 10** | **RHAGLEN PONTIO'R BWLCH 2021/2022 – DIWEDDARIAD CYNNYDD HYDREF I RHAGFYR 2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gyda'r adolygiadau busnes strategol yn ystod cyfnod mis Hydref i fis Rhagfyr 2021, yr asesiad diweddaraf o'r cyflawniad ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol a'r amcangyfrif diweddaraf o gyflawniad rhwng 2022/23 a 2026/27.<br><br>Wrth gydnabod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor byr, y tymor canol a'r hirdymor, cafodd rhaglen o adolygiadau busnes strategol ei ddatblygu i ddelio gyda bylchau cyllid posibl eu dynodi yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (Tabl 1) a gwella cydnerthedd ariannol y Cyngor.<br><br>Wrth gytuno ar y gyllideb ar gyfer 2021/2022, mae'r amcangyfrif o | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyflawniad Pontio'r Bwlch yn £755,000 gan gyfrannu at gyllideb gwarged o £1.3m.<br><br>Amcangyfrifwyd fod yr asesiad diweddaraf o gyflawniad posibl rhaglen Pontio'r Bwlch (fel yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol) yn £6.7m rhwng 2022/2023 a 2026/2017, a rhoddodd Tabl 2 yr asesiad blynyddol o gyflawniad.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog fod Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor, gyda chefnogaeth gan swyddogion o bob gwasanaeth, yn parhau i ddynodi/datblygu cynigion ychwanegol Pontio'r Bwlch i gau bylchau cyllideb ym mlynyddoedd y dyfodol.<br><br>Mae'r bylchau yn y gyllideb a ddynodwyd o fewn yr adroddiad yn seiliedig ar dybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol a gynhwysir yn Adroddiad cyllideb 2022/2023. Mae'r tybiaethau hyn yn cynnwys:<br>• Cynnydd cyllid gan Lywodraeth Cymru o 3% ar gyfer 2022/2023, 2% ar gyfer 2023/2024 ac arian gwastad ar ôl hynny.<br>• Dyfarniadau cyflog a chwyddiant prisiau o 2% y flwyddyn.<br>• Pwysau cost blynyddol o £2m y flwyddyn (o 2023/24).<br><br>Dywedodd y Swyddog fod amrywiaethau i/o y tybiaethau hyn yn effeithio ar y bylchau cyllideb.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod Aelodau'n nodi cynnydd rhaglen Pontio'r Bwlch (Opsiwn 1).<br><br>Gan mai hwn oedd y cyfarfod diwethaf yn y cylch cyn yr etholiadau, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Is-gadeirydd, Aelodau a Swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. | |